

Swydd-ddisgrifiad a Manyleb y Person

DYNODYDD Y SWYDD

Teitl y Swydd:	Dirprwy Bennaeth
Gradd:	L27-L31
Cyfarwyddiaeth:	Addysg
Adran:	Ysgolion
Lleoliad:	Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri
Yn atebol i:	Corff Llywodraethol Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri

CYFLWYNIAD

Mae'r swydd-ddisgrifiad hwn yn ategu'r safonau, y gwerthoedd a'r tueddiadau a nodir yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth 2018. Bydd y Dirprwy Bennaeth yn cyd-fynd â'r gwerthoedd a'r tueddiadau trosfwaol a ddiffinnir yn y Safonau Proffesiynol, ac yn eu harddangos a'u hyrwyddo:

- 1) Hawl broffesiynol
- 2) Iaith a diwylliant Cymru
- 3) Hawliau dysgwyr
- 4) Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- 5) Dysgwr proffesiynol
- 6) Rôl yn y system

Mae'n ofynnol i'r deiliad swydd ymgymryd â chyfrifoldebau proffesiynol Dirprwy Bennaeth fel y nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

PWRPAS Y SWYDD

O dan gyfarwyddyd y Pennaeth, cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, mewn partneriaeth â holl randdeiliaid yr ysgol, a'r arweinyddiaeth broffesiynol sydd ei hangen i alluogi'r holl staff i gefnogi dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial. Dylid cyflawni hyn yn unol â pholisïau'r corff llywodraethu, a'r blaenoriaethau a nodir mewn strategaethau addysg lleol a chenedlaethol.

Dirprwyo ar ran y Pennaeth yn ôl yr angen.

Addysgeg

1. Bod yn atebol am gefnogi addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben i ddysgwyr a chyflawni'r gorau iddynt o ran llesiant, safonau a chynnydd.
2. Datblygu strategaethau, strwythurau a systemau, mewn cydweithrediad â holl randdeiliaid yr ysgol, i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol tuag at wireddu gweledigaeth gyffredin yr ysgol a chyflawni gwelliant parhaus yn yr ysgol, er mwyn galluogi cyflawni'r pedwar diben dysgu, gan ystyried amgylchiadau, polisïau a mentrau cenedlaethol a lleol.
3. Ysgogi a gweithio gydag eraill i greu a chynnal ethos ysgol ac amgylchedd dysgu sy'n gydnaws â dysgu effeithiol.
4. Sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr yn gyson trwy fireinio a datblygu addysgu a dylanwadu ar ddysgwyr yn gynyddol.
5. Sicrhau trefniadaeth a chyflwyniad y cwricwlwm a gweithredu ystod o ddulliau addysgegol o fewn yr ysgol, i gefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel a chyflwyno'r cwricwlwm yng Nghymru.
6. Sicrhau ffocws cyson a pharhaus ar draws yr ysgol gyfan ar les, profiad a chyflawniad pob dysgwr, gan sefydlu diwylliant sy'n gwerthfawrogi barn dysgwyr wrth lywio pob cam o ddysgu a phrofiad ysgol.
7. Datblygu polisïau ac arferion, mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid perthnasol, sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg ac sy'n datblygu sgiliau dwyieithog dysgwyr fel y bo'n briodol.
8. Galluogi datblygiad y pedwar diben ar gyfer dysgu trwy greu strwythurau a systemau sy'n cefnogi cynllunio ac yn pwysleisio disgyblaethau gwahanol feysydd dysgu yn eu cyd-destun, er mwyn sicrhau addysgu a dysgu hynod effeithiol.
9. Datblygu a gweithredu systemau effeithiol i fonitro a gwerthuso effaith profiadau dysgu a chynnydd dysgwyr er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.
10. Dangos atebolrwydd am lesiant a deilliannau dysgwyr trwy weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i sicrhau bod llesiant a chyflawniad pob dysgwr yn cael ei werthfawrogi ac yn amlwg ar draws yr ysgol.
11. Datblygu strategaethau, strwythurau, polisïau a systemau cynhwysol, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid perthnasol, sy'n galluogi pob dysgwr i gael mynediad llawn at gyfleoedd i gyflawni a sicrhau bod eu hanghenion dysgu unigol yn cael eu diwallu.
12. Hyrwyddo a sicrhau tegwch mewn llwybrau dysgu academiaidd, galwedigaethol a thrwy brofiad.
13. Datblygu a chyfleu adroddiad cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol, i ystod o bartneriaid, gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr, gan sicrhau bod hyn yn ymgorffori lles a chynnydd dysgwyr.
14. Rheoli cyfathrebu effeithiol a gweithredu argymhellion sy'n deillio o adroddiadau, gan gynnwys canlyniadau hunan-arfarniad yr ysgol ac arolygiad allanol gan Estyn, er mwyn ysgogi a chynnal gwelliant ar gyfer yr ysgol.
15. Cydweithio gyda holl randdeiliaid yr ysgol i adeiladu hinsawdd ysgol a diwylliant dysgu sy'n adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth cymuned yr ysgol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

* Cyfrannu, fel y bo'n briodol, at yr addysgu yn yr ysgol.

Cydweithredu

16. Sefydlu hinsawdd o gyd-gefnogaeth a chydweithredu effeithiol o fewn yr ysgol a thu hwnt i ddatblygu, gwella a rhannu addysgeg effeithiol.
17. Gweithio gyda'r Pennaeth i sefydlu diwylliant dysgu cydweithredol o fewn yr ysgol ac ymgysylltu'n weithredol â sefydliadau addysgol eraill, i adeiladu cymunedau dysgu effeithiol.
18. Hyrwyddo a hwyluso cydweithredu effeithiol gyda chyflogwyr, busnes, y llywodraeth a gweithwyr addysg proffesiynol eraill i annog dulliau arloesol a chefnogi a gwella arferion beunyddiol y sefydliad dysgu.
19. Sefydlu ac adeiladu partneriaethau o fewn yr ysgol ac ar draws ysgolion i rannu arfer gorau a chefnogi gwella ysgolion er budd y ddwy ochr o ran cymorth hyblyg o ansawdd uchel i ddatblygu arfer broffesiynol.
20. Cefnogi'r Pennaeth i weithio gyda'r corff llywodraethu, fel ei fod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau o ran cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol a gwella'r ysgol yn barhaus.
21. Croesawu llywodraethu cryf a gweithio gyda'r Pennaeth i gefnogi'r corff llywodraethu i ddeall ei rôl a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.
22. Sefydlu perthnasoedd effeithiol ac agored gyda rhieni, gofalgwyr a'r gymuned leol ehangach i'w hymgysylltu'n weithredol â llesiant, profiad a chynnydd dysgwyr a sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan ganolog yn y gymuned.
23. Cydweithredu ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr awdurdod lleol, i ddarparu ar gyfer llesiant dysgwyr a'u teuluoedd.
24. Datblygu ymrwymiad ysgol gyfan i welliant parhaus a datblygiad cynaliadwy trwy fynd ati i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd cydweithredol ar gyfer yr holl staff, gan nodi meysydd pryder yn gywir a chymryd camau gweithredu priodol i gefnogi a sicrhau perfformiad gwell.

Dysgu Proffesiynol

25. Creu amgylchedd lle mae dysgu proffesiynol yn cael ei werthfawrogi, yn cael effaith ar addysgeg ac yn cefnogi twf proffesiynol ar draws y gymuned ddysgu yn yr ysgol a thu hwnt.
26. Sicrhau dysgu proffesiynol parhaus sydd â ffocws ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys eich hunan, gan fframio twf proffesiynol o fewn arfer addysgegol, profiadau a deilliannau dysgwyr.
27. Gweithio gyda'r Pennaeth i ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi twf ac arweinyddiaeth ar bob lefel trwy ddatblygu a meithrin potensial arweinyddiaeth mewn eraill, a chyfrannu at y cyfleoedd sydd ar gael, i adeiladu gallu arweinyddiaeth yr ysgol.
28. Sefydlu rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol i alluogi'r ysgol i chwarae rhan weithredol yn y gymuned addysg ehangaf gan gyfrannu at hyfforddi athrawon y dyfodol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr a datblygu ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarfer.

Arloesi

29. Cydlynu arloesi gyda'r holl randdeiliaid perthnasol, i sicrhau bod yr ysgol yn cofleidio ac yn elwa o ddulliau arloesi sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru.
30. Sefydlu rhaglen hirdymor o ddulliau arloesi sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n anelu at wynebu heriau, rheoli newid a symud dysgu yn ei flaen yn effeithiol er mwyn gwella llesiant a chanlyniadau.

- | |
|--|
| 31. Gweithio gyda'r Pennaeth i greu diwylliant lle mae arbenigedd, profiad ac ymarfer addysgeg yn cael eu datblygu a'u rhannu'n barhaus o fewn ac ar draws ysgolion. |
| 32. Gweithio gyda'r Pennaeth i ddatblygu diwylliant lle defnyddir tystiolaeth sy'n deillio o arfer arloesol i werthuso effaith newidiadau, o fewn a thu hwnt i gymuned yr ysgol. |

Arweinyddiaeth

- | |
|--|
| 33. Gweithio gyda chymuned yr ysgol i ddod â chydlyniant, eglurder ac ymrwymiad ar y cyd i wireddu'r weledigaeth addysgeg er budd dysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach yng Nghymru. |
| 34. Gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod cynllunio strategol yn adlewyrchu amrywiaeth, gwerthoedd, profiad a chyd-destun yr ysgol a'r gymuned yn gyffredinol. |
| 35. Sicrhau, gyda chefnogaeth a mewnbwn y Pennaeth a'r corff llywodraethu, fod yr ysgol yn cydymffurfio â'r holl bolisiau mewnol, lleol a chenedlaethol. |
| 36. Gweithio gyda'r Pennaeth i greu diwylliant lle gall eraill dyfu'n broffesiynol. |
| 37. Datblygu a meithrin potensial arweinyddiaeth mewn eraill ar bob lefel i adeiladu gallu arweinyddiaeth yr ysgol ac ysbrydoli arweinwyr y dyfodol. |
| 38. Datblygu, grymuso a chynnal unigolion a thimau effeithiol trwy arweinyddiaeth wasgaredig, gan annog ymarfer myfyriol. |
| 39. Adeiladu rhwydweithiau effeithiol i rannu gwybodaeth broffesiynol, ymchwil ac arbenigedd ymarferol sy'n galluogi'r ysgol ac ysgolion eraill i elwa trwy gydweithio. |

Rheoli'r ysgol

- | |
|--|
| 40. Gweithio gyda'r Pennaeth a'r rhanddeiliaid perthnasol i gynhyrchu a gweithredu cynlluniau gwella a pholisiau clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer datblygu'r ysgol a'i chyfleusterau. |
| 41. Gyda chefnogaeth y Pennaeth a'r corff llywodraethu, rheoli a threfnu amgylchedd yr ysgol yn effeithlon ac effeithiol i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch. |
| 42. Gwneud defnydd effeithiol o'r cymorth a'r her a ddarperir gan yr awdurdod lleol, y consortiwm rhanbarthol a chyrff perthnasol eraill. |
| 43. Cefnogi'r Pennaeth a'r corff llywodraethu i reoli adnoddau ariannol a dynol yr ysgol yn effeithiol ac effeithlon i gyflawni blaenoriaethau a nodau addysg yr ysgol. |
| 44. Monitro, gwerthuso ac adolygu, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth a'r corff llywodraethu, ystod, ansawdd a defnydd yr holl adnoddau sydd ar gael i wella ansawdd addysg i bob dysgwr ac i sicrhau gwerth am arian. |
| 45. Gweithio gyda'r Pennaeth a rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n sicrhau amgylchedd diogel, tawel a threfnus i'r holl ddysgwyr a staff a sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb, gan arwain at amodau dysgu llwyddiannus. |

MANYLEB Y PERSON

M = Meini prawf llunio rhestr fer

Sylwch, efallai y bydd meini prawf llunio rhestr fer hefyd yn cael eu profi yn y cam asesu

C = Cyfweiliad

	HANFODOL	DYMUNOL
CYMHWYSTER	<p>Statws Athro Cymwysedig (M)</p> <p>Gradd (M)</p> <p>Cofrestriad cyfredol CGA</p>	<p>Cymwysterau pellach a/neu astudiaethau proffesiynol sy'n berthnasol i'r ystod oedran. (M)</p>
GWYBODAETH A PHROFIAD	<p>Profiad profedig sylweddol ar lefel arweinyddiaeth uwch (M/C)</p> <p>Profiad wedi'i brofi o arweinyddiaeth e.e. arweinyddiaeth pwnc/cyfnod.(M)</p> <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyddestun addysgol Cymreig presennol a'r Genhadaeth Genedlaethol. (M)</p> <p>Gwybodaeth am arferion gorau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc (M/C)</p> <p>Profiad wedi'i brofi o fonitro, gwerthuso ac adolygu perfformiad er mwyn codi cyflawniad ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion. (M/C)</p> <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o'r hyn sy'n gyfystyr ag addysgu a dysgu rhagorol a sut i'w roi ar waith. (M/C)</p> <p>Gwybodaeth am strategaethau a gweithdrefnau effeithiol yn ymwneud â dysgu proffesiynol ac adolygu perfformiad. (C)</p> <p>Profiad llwyddiannus o reoli newid. (C)</p> <p>Profiad o feithrin perthnasoedd effeithiol ag ystod o randdeiliaid ysgol, gan gynnwys rhieni a'r gymuned ehangach. (M)</p>	<p>Profiad o reoli iechyd a diogelwch (M)</p> <p>Profiad o feithrin perthnasoedd a gweithio'n effeithiol gyda llywodraethwyr (M)</p> <p>Gwybodaeth ymarferol o fesurau diwygio ac atebolrwydd cymwysterau CA4 (M)</p>
SGILIAU	<p>Y gallu i fynegi a chyfleu gweledigaeth glir o ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel ar gyfer yr ysgol. (M)</p>	

	HANFODOL	DYMUNOL
	<p>Y gallu i arwain, rheoli ac ysgogi staff a disgyblion i gyflawni safonau uchel. (M/C)</p> <p>Profiad llwyddiannus o ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. (M/C)</p> <p>Y gallu i gyfathrebu a datblygu cysylltiadau yn effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ag ystod o gynulleidfaoedd. (M)</p> <p>Lefel uchel o sgil personol wrth ddefnyddio a chymhwyso technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). (M)</p> <p>Galluoedd trefniadol da a'r gallu i ddirprwyo. (C)</p>	
NODWEDDION PERSONOL	<p>Y gallu i fod yn wydn o dan bwysau ac aros yn gadarnhaol a brwdfrydig. (C)</p> <p>Ymrwymiad i ddysgu proffesiynol parhaus i chi'ch hun ac i eraill. (C)</p> <p>Ymrwymiad i hyrwyddo llesiant pob aelod o gymuned yr ysgol. (C)</p> <p>Ymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. (C)</p> <p>Y gallu i ddangos barn gadarn a chytbwys, pendantrwydd a hyblygrwydd. (C)</p> <p>Uniondeb, teyrngarwch a sensitifrwydd. (C)</p>	
GOFYNIION ERAILL	<p>Mae'r swydd hon wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) a bydd proses sgrinio gynhwysfawr yn cael ei chynnal ar gyfer pob ymgeisydd. Bydd hyn yn cynnwys gwiriad manwl gyda rhestr wahardd Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. (DBS)</p> <p>Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo polisi cyfle cyfartal y Cyngor yn gadarnhaol.</p>	

